# Atodiad 8

| Enw | Statws | Sylwadau |
|---|---|---|
| Maggie Francis | Cyn-breswylydd Mawddach Crescent | • Magwyd gŵr Mrs Francis, Mr David Francis yn 3 Mawddach Crescent a chyfarfu Mrs Francis ag ef pan symudodd i Abermaw cyn Y Pasg, 1974.<br>• Roedd ganddi gysylltiadau â'r rhes ers y dyddiad hwnnw nes iddynt werthu'r eiddo yn 2007.<br>• Mae Mrs Francis yn cofio'r arwyddion preifat yn benodol.<br>• Ers iddi ddechrau ei chysylltiad â'r rhes yn oddeutu 1973, ni all Mrs Francis gofio adeg pan nad oedd yr arwyddion yna.<br>• Noda Mrs Francis nad ydyw hi na'i gŵr yn cofio adeg pan nad oedd yr arwydd metel "Private Road" yna ac felly creda fod yr arwydd wedi bod yna ers cyn 1962, pan symudodd ei gŵr i Fawddach Crescent.<br>• O ystyried arferiad ei theulu yng nghyfraith o gadw cofnodion oedd yn ymwneud â'r eiddo, cred Mrs Francis fod yr arwydd metel a'r arwydd wedi'i baentio ar y wal frics yn bodoli pan brynwyd y tŷ yn 1962.<br>• Byddai Mrs Francis yn fodlon mynd ar ei llw mewn Ymchwiliad fod yna arwyddion preifat ar ochr ddwyreiniol y rhes.<br>• Creda Mrs Francis hefyd fod nifer o'r hawlwyr yn gyfarwydd â/yn adnabod y bobl sy'n byw yn y rhes.<br>• Mae Mrs Francis yn cwestiynu dilysrwydd y datganiadau a wnaed gan bobl sy'n honni eu bod wedi croesi'r Cob i gyrraedd eu gwaith bob dydd yn Abermaw, oherwydd y llanw. Datgan Mrs Francis fod yr aber yn enwog am fod mor beryglus oherwydd hyn. Dadleua Mrs Francis y gall blerwch gyda'r llanw olygu fod yn rhaid i'r defnyddiwr gerdded pellter sylweddol i osgoi'r Cob.<br>• Mae Mrs Francis wedi darparu Rhybudd Cyhoeddus a gyhoeddwyd yn "Y Dydd" dyddiedig 11.10.1957 gan D.J.Roberts Fegla Fawr, Arthog yn cyhoeddi y byddai'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | llwybr yn cau ar unwaith oherwydd cyflwr peryglus y bont droed ar y clawdd llifogydd o Arthog i Bont Abermaw. |
| David Francis | Byw yno rhwng 1962 a 2007 | • Bu Mr Francis yn byw yn y rhes o 1962 hyd 2007.<br>• Noda Mr Francis yn bendant fod yna arwydd preifat wastad wedi bod ar ochr ddwyreiniol y rhes.<br>• Cadarnhaodd Mr Francis fod yna sawl arwydd o amgylch y rhes yn datgan fod y ffordd yn breifat gan gynnwys yr un oedd wedi'i sgriffio ar y wal frics ar ochr ddwyreiniol y rhes, a'i fod yn amlwg iawn.<br>• Mae Mr Francis yn cofio arwydd 'private' wedi'i osod ar yr ochr orllewinol, ac fe ddiflannodd rhyw dro yn ystod y chwedegau hwyr.<br>• Byddai Mr Francis yn fodlon mynychu unrhyw wrandawiad cyhoeddus a thystio i'r uchod. |
| Richard Griffin | Ffrind cyn-breswylydd, Mr David Francis | • Mae Mr Griffin yn gyfarwydd â'r ardal sy'n amgylchynu Mawddach Crescent ar ôl ymweld â'r lle nifer o weithiau i weld ei ffrind ysgol, David Francis oedd yn byw yn Rhif 3 ers gwanwyn 1963.<br>• Wrth ymweld â Mr Francis, byddai Mr Griffin, gyda'i feic, yn troi i'r chwith ar derfyn Pont Abermaw a theithio lawr y llethr ar y sarn. Byddai Mr Griffin wedyn yn dod oddi ar ei feic ac yn ei gario tros y creigiau i fyny i'r lefel lle'r oedd gweddillion pont y sarn. Byddai Mr Griffin yn gwthio ei feic ar draws hyd yn oed pan oedd y trawstiau pren dal yna ond erbyn 1976, roedd y bont wedi dadfeilio'n ddim ac nid oedd modd ei defnyddio. Ar ben arall y bont, byddai'n rhaid i Mr Griffin gario ei feic i lawr (oddeutu 4 troedfedd) i'r lefel at frig y sarn. Ar ben arall y sarn, byddai'n rhaid i Mr Griffin gario ei feic ar dir anwastad o lefel y sarn hyd at lefel y tir gwastad sy'n arwain at y rhes dai.<br>• Mae Mr Griffin yn cofio fod yna arwydd "PRIVATE" mewn paent gwyn ar rai o'r pileri brics coch a oedd yn amlwg iawn.<br>• Mae Mr Griffin yn cadarnhau fod yr arwydd "PRIVATE" yno heddiw. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Dywed Mr Griffin fod yr arwydd PRIVATE yn bendant yno yn ystod canol i ddiwedd y chwedegau a dechrau'r saithdegau.<br>• Datgan Mr Griffin fod yr arwydd PRIVATE hwn fwy na thebyg yna ym mhell cyn canol y chwedegau, gan nad oedd yn ymddangos yn newydd nac newydd ei baentio.<br>• O ran yr arwydd preifat honedig ar wyneb y graig, ymddengys mai dim ond brith gof o hyn sydd gan Mr Griffin ond mae'n cofio'r arwydd "PRIVATE" mewn paent gwyn yn dda am ei fod yn sefyll allan.<br>• Ni allai Mr Griffin ddod o hyd i weddillion yr arwydd "PRIVATE" ar y graig heddiw.<br>• Ni wŷr Mr Griffin pryd gafodd yr arwydd metel ei osod ar y wal ond dywed fod y ffotograff yn dangos rhywbeth wedi'i ysgrifennu ar y wal frics o dan yr arwydd metel; mae'n debyg mai'r gair "private" oedd o i gyd-fynd a'r gair "road"; sy'n golygu fod y geiriau o dan yr arwydd wedi cael eu rhoi ar y wal frics cyn i'r arwydd metel gael ei osod.<br>• Datgan Mr Griffin mai'r unig reswm yr oedd yn cerdded ar hyd yr hen dramffordd a'r ffordd o flaen y tai oedd am ei fod yn ymweld â rhywun oedd yn byw yn y tai. |
| Hannah Cromarty<br>Duncan Cromarty<br>Jean Cromarty | Preswylwyr/perchnogion (1982 - presennol) | • Ceir cadarnhad gan yr ymatebwyr fod rhybuddion wedi'u gosod naill ben i'r tai yn 2005 neu 2006 yn datgan: "STOP. PRIVATE PROPERTY. PLEASE USE PUBLIC FOOTPATH TO REAR OF HOUSES. THANK YOU."<br>• Mae'r ymatebwyr yn cofio gweld arwyddion "Private" yna yn y saithdegau pan ddechreuont ymweld â Fegla Fawr. Dywedant hefyd fod tystiolaeth i ddangos fod arwydd "Private Road" yna eisoes a hynny mor gynnar â diwedd y pedwardegau neu'r pumdegau.<br>• Cyfeiria'r ymatebwyr at arwydd "Private Road" ar y wal frics wrth fynedfa'r tai dros y geiriau "PRIVATE ROAD" mewn paent. Wrth ymyl hwn, ceir arwydd sy'n datgan "PRIVATE" mewn llythrennau gwyn mawr sydd wedi pylu.<br>• Mae'r ymatebwyr hefyd yn cofio'r gair "PRIVATE" wedi cael ei baentio â llaw ar wyneb y graig ger y blwch postio yn yr wythdegau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Datgan yr ymatebwyr fod perchnogion y tir wedi codi ffensys naill ben i'r rhes dai yn 1999 gyda grid gwartheg yn un pen a giât yn y pen arall. Codwyd rhybudd ar bolyn yn yr ochr ddwyreiniol a rhybudd ar y giât yn yr ochr orllewinol yn datgan "MAWDDACH CRESCENT - PRIVATE ROAD".<br>• Creda'r ymatebwyr nad oes cyfnod o ugain mlynedd wedi bod lle gellir ystyried neilltuo'r ffordd oherwydd bod yr arwyddion "Private" wedi bod yno cyhyd.<br>• Dengys y datganiadau fod y rhai oedd yn defnyddio'r llwybr yn adnabod y bobl oedd yn byw yn y tai, eu bod yn cael eu croesawu, eu bod yn mynd yno i ymweld â phobl, yn cael te a sgwrs a'u bod yn cael bwyta picnic ar y wal fôr.<br>• Datgan yr ymatebwyr nad oedd pawb oedd yn cerdded heibio yn cael eu stopio, er enghraifft efallai bod rhai perchnogion wedi caniatáu i'w ffrindiau yn Arthog ddefnyddio'r llwybr.<br>• Datgan yr ymatebwyr gelwid y tai yn "the Artists' Houses" oherwydd bod arlunwyr yn byw yno. Hawlir hefyd fod rhai o'r eiddo wedi cynnal arddangosfeydd ac wedi arddangos paentiadau i'w gwerthu ac o bosib wedi cynnig te a chacen. Dadleuir fod unrhyw bobl a oedd yn ymweld â Mawddach Crescent i'r dibenion hyn wedi cael caniatâd i ymweld â'r tai.<br>• Fel teulu, byddai'r ymatebwyr yn gwersylla ar Fryn Fegla Fawr unwaith neu ddwywaith y flwyddyn o ddechrau'r saithdegau hyd 1982 ac maent yn cofio Miss Roberts yn herio pobl oedd yn croesi ei thir yn rheolaidd.<br>• Dywed yr ymatebwyr y byddai eu taid a'u mam yn dweud yn rheolaidd wrth gerddwyr oedd yn croesi o flaen y tai ei bod yn ffordd breifat a bod y llwybr cyhoeddus yn rhedeg y tu ôl i'r tai. Roedd perchnogion eraill hefyd yn gwrthwynebu e.e. Roedd Mr Cutler a fu'n byw ym Mawddach Crescent o oddeutu 1980 hyd 2007 yn heriwr croch.<br>• Mae ansawdd a pherthnasedd y dystiolaeth yn amheus. Nid yw nifer sylweddol o'r datganiadau'n adnabod y llwybr yn glir; gan ddatgan y byddai Mr Roberts yn darparu cynllun. Awgryma hyn nad yw'r tystion yn glir ynghylch beth sy'n cael ei ddadlau yn ei gylch.<br>• Mae rhai datganiadau'n honni eu bod wedi defnyddio'r llwybr ers degawdau, ond eto'n datgan nad ydynt erioed wedi gweld unrhyw arwyddion ar y llwybr a hawlir. Nid |

| | | |
|---|---|---|
| | | yw'r datganiadau'n darparu fawr o wybodaeth heblaw am enw a llofnod sy'n gyson â deiseb.<br>• Mae'n well gan rhai hawlwyr ddefnyddio'r llwybr ar hyd blaen Mawddach Crescent yn hytrach na'r llwybr cyhoeddus yn y cefn sydd felly'n ysgogiad iddynt hawlio'r llwybr hwn.<br>• Creda'r ymatebwyr fod rhai o'r hawlwyr ddim ond yn defnyddio'r llwybr o flaen y tai pan nad oedd neb o gwmpas h.y. yn ddistaw bach.<br>• Mae'r dystiolaeth am Hawl Tramwy Cyhoeddus yr ochr arall i'r sarn yn wan am nad oedd y llwybr wedi cael ei gynnwys yn y Map Swyddogol nac yn yr Adolygiad. Hefyd, mae tystiolaeth ddogfennol sylweddol i ddangos fod Miss Roberts wedi rhoi camau ar waith i atal Hawl Tramwy Cyhoeddus rhag cael ei sefydlu.<br>• Nid oes modd cerdded ar rannau o'r sarn mewn llanw uchel.<br>• Cred yr ymatebwyr na fyddai Miss Dorothy Roberts ond yn cytuno i neilltuo hawl tramwy cyhoeddus ar hyd y sarn oni bai fod y Cyngor yn talu am ei gynnal. |
| Mr J.Hall a Miss L.Oakley | Preswylwyr/perchnogion (2007 - presennol) | • Prynwyd yr eiddo gan Mr Cutler (wedi byw yno ers saithdegau'r ganrif ddiwethaf) a rhoddodd gyngor iddynt gloi naill ben y rhes am un diwrnod bob blwyddyn er mwyn atal pobl rhag hawlio ei fod yn Hawl Tramwy Cyhoeddus. Datgan yr ymatebwyr eu bod wedi gweithredu'n unol â hynny. Dywedodd Mr Cutler ei fod wedi bod yn gwneud yr un peth ond ni wyddys pa bryd.<br>• Cafodd Mr Hall a Ms Oakley eu herio gan Mr Bath pan aethant i weld yr eiddo.<br>• Mae hwy eu hunain hefyd wedi herio pobl ac wedi'u cyfeirio at y llwybr cyhoeddus yn y cefn.<br>• Mae sawl arwydd yn eu lle sy'n datgan fod Mawddach Crescent yn breifat. Mae'r rhain yn dyddio o ganol y ganrif ddiwethaf hyd at y ddwy flynedd diwethaf.<br>• Roedd rhai defnyddwyr penodol yn cael caniatâd e.e. pobl oedd yn ymweld â ffrindiau oedd yn byw yn y tai, pobl oedd yn derbyn lluniaeth, pobl oedd yn edrych ar baentiadau, y dyn llefrith.<br>• Dengys y cardiau post flaen y tai, heb ymwelwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Mae rhai datganiadau'n cyfeirio at ddiffyg arwyddion, ac mae hyn yn anghywir. Mae'r arwyddion yn cynnwys un a osodwyd yn y 1940/50au, arwydd wedi'i baentio mewn llythrennau gwyn droedfedd o hyd gan Mr Cutler yn y 1970au yn ôl y sôn (i'w weld o hyd), arwyddion a osodwyd ar ddiwedd y 1990au pan osodwyd y grid gwartheg. Yn gynnar yn y 2000au, gosodwyd dau arwydd arall, un ar y naill ben, ac mae'r rhain yno hyd heddiw.<br>• Nid yw'r llyfrau cerdded yn cyfeirio at lwybr sy'n rhedeg o flaen y tai.<br>• O ran y llwybr ar hyd y Cob, roedd Miss D Roberts wastad wedi gwrthod fod unrhyw lwybr yno. |
| Sue Rudd | Perchennog / preswylydd (2010 - presennol) | • Mae Ms Rudd wedi byw ym Mawddach Crescent ers dros saith mlynedd ac ar sawl achlysur mae hi wedi sôn wrth aelodau'r cyhoedd sy'n cerdded o flaen y tai nad oes hawl tramwy yno. Mae hi wedi tystio i gymdogion eraill yn gwneud union yr un cais.<br>• Roedd Ms Rudd wedi bod yn dod ar ei gwyliau i'r ardal ers dros ugain mlynedd cyn iddi brynu'r eiddo ac mae cof clir ganddi o gael ei herio gan un o'r preswylwyr yn oddeutu 1992.<br>• Mae giatiau a grid gwartheg wedi cael eu gosod i annog cerddwyr i beidio â chymryd fod hawl ganddynt i gerdded o flaen y tai.<br>• Mae arwyddion wedi bod mewn lle ers sawl degawd sy'n cadarnhau fod y tir yn breifat.<br>• Mae cytundeb fod naill ben Mawddach Crescent yn cael eu cloi am un diwrnod bob blwyddyn i atal unrhyw ragdybiaeth fod hawl tramwy yn bodoli.<br>• Roedd/mae'r preswylwyr yn adnabod nifer o'r hawlwyr a gellir felly dehongli fod caniatâd ganddynt i ddefnyddio'r llwybr. Nid yw rhai o'r datganiadau'n sôn am arwyddion.<br>• Mae herio cyson wedi bod ar hyd sawl degawd.<br>• Mae tystiolaeth sylweddol i brofi fod y perchnogion wedi rhoi amrediad o gamau ar waith i atal y cyhoedd rhag defnyddio'r llwybr. |

| | | |
|---|---|---|
| Maureen Raven | Perchennog / preswylydd (2008 - presennol) | • Wedi byw ym Mawddach Crescent ers naw mlynedd.<br>• Ddim wedi gweld llawer o bobl yn cerdded o flaen y rhes. Roedd y sawl a fyddai'n defnyddio'r llwybr yn cael eu herio.<br>• Nid oes angen amlwg am lwybr o flaen ein cartrefi. |
| James Foulton Hayward | Perchennog / preswylydd (2014 - presennol) | • Mae arwyddion wedi bod yna sydd wedi'u marcio'n glir gyda "PRIVATE ROAD" a "PRIVATE RIGHT OF WAY".<br>• Mae giât ar y fynedfa hefyd.<br>• Gwnaed pob ymdrech i gau allan y cyhoedd.<br>• Nid oes angen hawl tramwy ar wahân.<br>• Cydnabu'r Cyngor yn 1998/9 nad oedd y cyhoedd wedi defnyddio'r tir hwn i gael mynediad ac nad oedd ganddynt hawl i'w ddefnyddio.<br>• Mae'r cais yn seiliedig ar ymgyrch gan gerddwyr yn hytrach na thystiolaeth ffeithiol. |
| Helen Doig + David Streatfield | Perchnogion / Preswylwyr (1994 - presennol) | • Wedi prynu'r eiddo yn 1994 ac wedi herio cerddwyr o hynny ymlaen yn dilyn cyngor gan gymdogion.<br>• Yn 1999, penderfynwyd codi giât, ffensys, grid gwartheg ac arwyddion ar naill ben y rhes yn datgan "Mawddach Crescent Private Road".<br>• Yn 2005/6, gosododd preswylydd Rhif 1 arwyddion eraill yn datgan, "Stop. Private Property. Please use public footpath to rear of houses. Thank you."<br>• Roedd sawl rhybudd yn 1994 gan gynnwys arwydd metel yn datgan "Private Road" ar wal frics fechan, arwydd "PRIVATE" wedi'i baentio'n wyn ar yr un wal ac arwydd arall sy'n datgan "PRIVATE" wedi'i baentio ar wal gerrig gerllaw. Mae'r un olaf wedi diflannu ond mae'r ddau arwydd cyntaf dal yna ond roeddynt yn edrych yn hen iawn yn 1994.<br>• Mae oddeutu 30% o'r hawlwyr yn datgan eu bod wedi cael eu herio wrth gerdded o flaen y tai. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Mae'r giât ar ochr orllewinol y rhes wedi cael ei chloi yn rheolaidd ers iddi gael ei gosod. Mae bellach wedi cael ei chloi yn barhaol oherwydd bod y postyn giât wedi pydru. Unwaith y flwyddyn, mae preswylydd Rhif 8 yn gosod cadwyn a chlo ar draws yr ochr ddwyreiniol.<br>• Awgrymir fod rhai o'r ffurflenni datganiad yn cyfleu fod mynediad caniataol. |
| H.Dunn | Cymydog<br>(o ganol-1970au hyd y presennol) | • Wedi byw mewn eiddo gerllaw ers dros 40 mlynedd.<br>• Mae'r ddau arwydd preifat ar y wal wrth edrych o gyfeiriad y dwyrain tuag at Abermaw wastad wedi bod yna - yr arwydd gyda'r gair "private" wedi'i baentio mewn llythrennau troedfedd o hyd a'r arwydd metel "private" wedi'i sgriwio i'r wal. |
| Tracey Towler | Ymwelydd | • Wedi ymweld â Mawddach Crescent ers dros 10 mlynedd ac wedi cael ei herio'n aml wrth gerdded am y gerddi preifat.<br>• Wedi gweld pobl eraill yn cael eu herio.<br>• Creda y byddai'r llwybr yn amharu ar breifatrwydd ac yn ddiangen gan fod yna lwybr cerdded yn barod. |
| P.R.Thomas | Gyrrwr bws ysgol lleol | • Rhwng 1983 a 1988, arferai Mr Thomas yrru bws ysgol i/o Fawddach Crescent.<br>• Mae'n cofio giât gaeedig ar waelod Mawddach Crescent gydag arwydd yn datgan 'Residents Access Only'. |
| Jean Cromarty | Preswylydd/perchennog<br>(1982 - presennol) | Mae'n gwrthwynebu'r cais am y rhesymau a ganlyn:-<br>• Yn 1982, wrth brynu'r eiddo, mabwysiadodd arferiad y preswylwyr o herio pobl oedd yn cerdded o flaen y tai. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Ers hynny, mae hi wedi parhau i egluro wrth y cyhoedd nad oes ganddynt yr hawl i fynd heibio blaen y tai ac y dylent ddefnyddio'r llwybr cyhoeddus yn y cefn.<br>• Dros y blynyddoedd, mae arwyddion wedi cael eu gosod yn ei gwneud yn glir i aelodau'r cyhoedd fod y tir yn breifat.<br>• Yn 1995, daeth preswylwyr ynghyd i osod giât yn un pen o'r rhes a grid gwartheg gyda giât fechan yn y pen arall. Yn ogystal, gosodwyd arwyddion mwy i'w wneud yn hyd yn oed mwy amlwg fod y tir o flaen y tai yn breifat ac nad oes Hawl Tramwy Cyhoeddus. |
| Hannah Cromarty | Perthynas i'r perchennog presennol/preswylydd | • Wedi cael cysylltiadau â Mawddach Crescent ers y 1970au pan ddechreuodd ei theulu fynd i'r ardal (gan gynnwys Mawddach Crescent) ar eu gwyliau. Yn 1982, prynodd ei thaid dŷ ar Fawddach Crescent a basiwyd ymlaen i'w mam sy'n byw yno ar hyn o bryd. Prynodd ei thad dŷ arall ar Fawddach Crescent yn gynnar yn y 1980au.<br>• Mae'n cofio ei thaid a'i rhieni yn atal y cyhoedd a oedd yn pasio o flaen y tai ac yn eu cyfeirio at y llwybr cyhoeddus tu ôl i'r tai. Arferai'r preswylwyr eraill wneud yr un peth.<br>• Mae'n cofio wal frics fechan wrth fynedfa'r tai, oedd â phlac arni'n datgan "Private" ac yn amlwg wedi bod yna ers nifer o flynyddoedd.<br>• Dywed, rhyw dro yn ystod y 1980au, fod un o'r preswylwyr wedi paentio "Private No Access" neu debyg ar y cerrig wrth y fynedfa.<br>• Yn oddeutu 1995, daeth preswylwyr ynghyd i osod giât yn un pen o'r rhes a grid gwartheg gyda giât fechan yn y pen arall. Talodd y preswylwyr am rybuddion i'w gosod ar y ddwy giât i ddatgan fod y tir yn eiddo preifat.<br>• Mae'n parhau i herio aelodau'r cyhoedd sy'n pasio o flaen y tai. |
| Lamprey Trust | Perchnogion (2013 - presennol) | • Mae'n amlwg ar sail y dystiolaeth nad oes hawl tramwy'n bodoli.<br>• Mae giât ar un pen i Fawddach Crescent, ac maent wedi cael gwybod ei bod wedi bod yna ers sawl blwyddyn ac mae arwydd clir yn datgan "private road" ar y pen arall, sydd wedi bod yna ers hyd yn oed mwy o amser. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Honnir bod y preswylwyr wedi cysylltu â David Coleman pan oedd y giatiau a'r arwyddion dan ystyriaeth. Ni fyddai'r rhwystrau wedi cael eu codi pe bai'r preswylwyr wedi cael gwybod bod y llwybr yn hawl tramwy.<br>• Mae'r perchnogion tai lleol, ac mewn rhai achosion eu teuluoedd a oedd yn byw yna o'u blaen, yn bendant mai dim ond ychydig o bobl oedd yn mynnu cerdded o flaen y tai.<br>• Mae bosib eu bod wedi sefydlu perthynas gyda rhai pobl a oedd yn cael mynediad. |
| Sŵn y Môr Company Ltd | Perchnogion (1983 - presennol) | Mae'n gwrthwynebu'r cais am y rhesymau a ganlyn:-<br>• Yn ystod y cyfnod rhwng 1983 a'r presennol, mae wedi mynd ati i atal pobl rhag mynd heibio blaen y tai.<br>• Maent wedi atgoffa'r cyhoedd lle'n union mae'r llwybr cyhoeddus. |
| David a Vanita Bath | Cyn-breswylydd (diwedd 2004 - 2014) | • Datgan Mr a Mrs Bath eu bod wedi gosod yr arwyddion “no entry” pan symudont i fyw i Fawddach Crescent ddiwedd 2004.<br>• Mae Mr a Mrs Bath yn cadarnhau eu bod yn herio aelodau o'r cyhoedd oedd yn cerdded o flaen y tai yn rheolaidd.<br>• Datgan Mr a Mrs Bath fod y rhybuddion "Private" ar naill ben i'r tai wedi cael eu gosod gan breswylwyr a oedd yn byw yno nifer o flynyddoedd cyn iddynt hwy symud yno. |
| William McDonald | Ffrind perchnogion presennol / Cyfreithiwr wedi ymddeol | • Hen ffrind i berchennog presennol un o'r tai a oedd hefyd wedi gweithredu mewn capasiti proffesiynol ar bryniant y tŷ.<br>• Ymwelodd Mr McDonald â'r tŷ ar nifer o achosion gan weld yr arwyddion oedd yn dangos fod y llwybr yn mynd heibio cefn y tai.<br>• Datgan Mr McDonald ei bod yn glir nad oedd hawl tramwy cyhoeddus o flaen y rhes. |

| | | |
|---|---|---|
| Tim Rose | Ymwelydd â Mawddach Crescent | • Datgan Mr Rose ei fod wedi ymweld â Mawddach Crescent yn aml ers gwyliau'r haf 1994 pan brynodd Mr Streatfield a Ms Doig eu tŷ.<br>• Wastad wedi bod yn ymwybodol fod yr hawl tramwy cyhoeddus yn rhedeg tu ôl i'r rhes. Wedi gweld digwyddiadau pan fo cerddwyr wedi ceisio croesi o flaen y tai ac wedi cael eu herio.<br>• Cadarnhau ers tua 1995, fod grid gwartheg a ffens wedi cael eu gosod tu allan i Rif 8 ac ar y pen arall, tu allan i Rif 1, ffens a giât fferm fetel. Gosodwyd arwydd yn datgan "Mawddach Crescent Private Road" ar yr un pryd, un ar bolyn wrth y grid gwartheg, y llall wedi'i osod ar y giât ar yr ochr arall.<br>• Gosodwyd arwydd arall yn oddeutu 2006 yn datgan fod y llwybr cyhoeddus yn rhedeg tu ôl y tai.<br>• Mae Mr Rose yn cofio arwydd llawer hŷn ger y blwch post yn datgan "Private Road" oedd wedi bod yn ei le ers nifer o flynyddoedd.<br>• Mae Mr Rose yn cofio fod y giât fetel o flaen Rhif 1 weithiau'n cael ei chloi â chlo beic wedi'i osod yna gan breswylydd arall. |
| Peter Walker | Cyn rhan berchennog tŷ ar Mawddach Crescent | • Datgan Mr Walker yn ystod yr amser y mae wedi defnyddio'r tŷ (o ddiwedd y 70au hyd y presennol), ei fod yn ymwybodol fod pob un oedd yn byw yn y tai wedi trio annog pobl i ddefnyddio'r hawl tramwy sy'n rhedeg tu ôl i'r tai.<br>• Creda Mr Walker, yng nghanol y 1980au, y rhoddwyd giât newydd yn ochr orllewinol y rhes a grid gwartheg gyda ffens gysylltiol yn yr ochr ddwyreiniol, felly bydd unrhyw un sy'n ceisio mynd ar y llwybr o flaen y tai un ai'n gorfod croesi'r grid gwartheg, neu ddringo dros y ffens. |
| Clare Smith | Merch cyn-berchennog | • Datgan Ms Smith fod ei rhieni, Brian a Nancy Walker, wedi bod yn berchen ar Rif 4 am fwy na 30 mlynedd ar y cyd â dau gwpl arall. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Mae Ms Smith wedi bod yn ymwelydd rheolaidd yna ar gyfer gwyliau'r Pasg, y Nadolig a'r haf ers dros 30 mlynedd.<br>• Mae Ms Smith yn cofio gofyn yn rheolaidd i bobl oedd yn cerdded heibio i fynd am yn ôl a defnyddio'r llwybr cyhoeddus y tu ôl i'r tai.<br>• Datgan Ms Smith fod teulu'r Walkers yn cefnogi gweithgareddau Mr David Bath (cyn-berchennog Rhif 1) pan gododd giatiau ac arwyddion i atal cerddwyr. Ar ôl gosod y giatiau, rhoddwyd clo ar y giât agosaf i Rif 1, ac fe'i tynnwyd rhai misoedd yn ddiweddarach i alluogi gwell mynediad i'r preswylwyr gyda beiciau. |
| Vanessa Maumelat-Doig | Perthynas i'r perchennog presennol/preswylydd | • Datgan Ms Maumelat-Doig fod mam ei gŵr (Helen Doig) yn berchen ar dŷ yn y rhes gyda'i gŵr, David Streatfield.<br>• Fe wnaeth Ms Maumelat-Doig ymweld â Mawddach Crescent gyntaf yn 2000, ac wedi bod ar wyliau yno nifer o weithiau ers hynny.<br>• Mae Ms Maumelat-Doig yn ymwybodol fod Ms Helen Doig wedi atal pobl rhag cerdded o flaen y tai.<br>• Datgan Ms Maumelat-Doig y byddai pobl yn cerdded o flaen y tai, weithiau gyda chŵn, oedd bob amser yn broblem os oeddynt allan o flaen y tai yn cael barbeciw, neu os oedd y plant allan yn chwarae o flaen y tai. Byddai rhai pobl yn derbyn y sefyllfa ac yn troi am yn ôl a cherdded tu ôl y tai, tra'r oedd pobl eraill yn ffraeo ac yn bod yn annifyr. |
| Tom Doig | Perthynas i'r perchennog presennol/preswylydd | • Datgan Mr Doig bod ei fam - Helen Doig - wedi prynu tŷ ar Fawddach Crescent gyda'i gŵr, David Streatfield, yn 1994.<br>• Mae Mr Doig wedi aros gyda hwy, ac wedi bod ar ei wyliau yna gyda'i deulu yn achlysurol, ers y dyddiad hwnnw.<br>• Datgan Mr Doig fod ei fam a'i gŵr yn herio pobl oedd yn cerdded o flaen y tai.<br>• Datgan Mr Doig bod preswylwyr Mawddach Crescent wedi cyfrannu at gael giât a grid gwartheg ar naill ben y tai yn oddeutu 1995-1996 i atal cerddwyr. Ar yr un pryd, |

| | | |
|---|---|---|
| | | gosodwyd rhybuddion yn dweud fod y ffordd yn breifat er roedd ambell i arwydd "private" wedi bod yno cyn hynny. |
| Margaret Redrup | Perthynas i'r perchennog presennol/preswylydd | • Datgan Ms Redrup fod ei brawd, David Streatfield wedi prynu tŷ ar Fawddach Crescent yn 1994. Ers hynny mae hi a'i gŵr wedi ymweld â'r tai ar nifer o achlysuron.<br>• Wrth ymweld â Mawddach Crescent, gwelont fod giât fferm ar ben gorllewinol y rhes gydag arwydd arni'n datgan "Mawddach Crescent Private Road". Yn ochr ddwyreiniol y teras, roedd grid gwartheg gydag arwydd wrth ei ymyl ar bolyn hefyd yn datgan "Mawddach Crescent Private Road".<br>• Sylwodd Ms Redrup ar un o'i ymweliadau cynnar, fod David, ei brawd yn herio pobl oedd yn cerdded o flaen y tai. |
| Tess Swithenby | Perthynas i'r perchennog presennol/preswylydd | • Datgan Ms Swithenby ers i'w chwaer, Helen Doig, a'i brawd yng nghyfraith David Streatfield brynu tŷ ar Fawddach Crescent yn 1994, ei bod wedi bod yn aros gyda hwy pan oedd y teulu ar eu gwyliau a phan oeddynt yn cynnal digwyddiadau i'r teulu.<br>• Datgan Ms Swithenby y byddant yn trefnu barbeciws o flaen y tai, os oedd y tywydd yn caniatáu. O dro i dro yn ystod y prydau hyn gyda'i theulu, byddai pobl yn cerdded o flaen Mawddach Crescent, ond datgan Ms Swithenby y byddai un ai ei chwaer neu ei brawd-yng-nghyfraith wastad yn herio'r bobl hyn. Roedd hyn yn bennaf oherwydd preifatrwydd ond hefyd er mwyn atal y llwybr rhag bod yn hawl tramwy.<br>• Datgan Ms Swithenby y codwyd giatiau a grid gwartheg tua 1996, er mwyn i gerddwyr weld yn glir fod y tir yn breifat. |
| Kerry Read | Cyn-breswylydd / ymwelydd | • Mae Ms Read wedi byw ym Mawddach Crescent bob yn ail â pheidio rhwng 1995 a 2007.<br>• Datgan Ms Read ei bod wedi gweld David Streatfield a’i mam Helen Doig yn herio cerddwyr a oedd yn ceisio cerdded o flaen y Crescent. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Datgan Ms Read ei bod hefyd wedi herio unrhyw un a oedd yn ceisio cerdded ar hyd blaen y tai ac yn eu cyfeirio at y llwybr cyhoeddus tu ôl i'r tai.<br>• Datgan Ms Read bod grid gwartheg ger rhif 8 gydag arwydd "Private Road" yn ystod yr holl amser yr oedd yn ymweld ac yn byw ym Mawddach Crescent.<br>• Dywed Ms Read bod giât wedi ei chloi wedi ei gosod ger rhif 1 yn ystod 1996/1997. |
| Louise Harries | Ymwelydd | • Wedi bod yn mynd ar wyliau gyda'i theulu i Arthog am fwy nag 20 mlynedd.<br>• Byddant yn aros ar Fferm Fegla Fach a byddant yn aml yn mynd o'r wersyllfa i Abermaw ac yn ôl.<br>• Datgan Ms Harries ei bod wedi cael ei herio, ar un adeg, gan un o'r preswylwyr a ddywedodd wrthi fod y tir o flaen y tai yn breifat a bod y llwybr troed yn mynd tu ôl i'r tai. |
| Jessica Rudd | Ymwelydd | • Wedi bod yn mynd ar wyliau gyda'i theulu i Arthog am fwy nag 20 mlynedd.<br>• Byddant yn aros ar Fferm Fegla Fach a byddant yn aml yn mynd o'r fan honno i Abermaw.<br>• Datgan Ms Rudd fod un o'r preswylwyr wedi ei herio a dywedodd wrthi fod y tir yn breifat a bod llwybr troed yn mynd y tu ôl i'r tai. |
| Mr a Mrs Kitzing | Perchennog (2013 – presennol) | • Ddim wedi gweld llawer o bobl yn ceisio cerdded o flaen y tai.<br>• Wrth weld yr eiddo ym mis Medi 2012, cafodd Mr a Mrs Kitzing eu herio gan berchnogion rhif 1 Mawddach Crescent am gerdded o flaen yr eiddo.<br>• Datgan Mr a Mrs Kitzing eu bod wedi herio pobl nad oeddynt yn eu hadnabod ac maent hefyd wedi gweld preswylwyr eraill yn herio rhai o'r tu allan sy'n ceisio mynd heibio. |